Mae'r ymateb yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**i'r cod ymarfer drafft i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016**

Diolch am y cyfle i adolygu a rhoi fy sylwadau ar y cod ymarfer drafft i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

Rwyf innau, ynghyd â'm staff, yn gefnogol iawn i Safonau'r Gymraeg fel offeryn i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan sicrhau na ddylid trin y Gymraeg, a'r sawl sy'n ei defnyddio, yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r cod ymarfer yn darparu dehongliad ac eglurhad defnyddiol o'r Safonau. Mae strwythur y cod a'r enghreifftiau a ddarparwyd yn ddigon i'n helpu i ddeall y disgwyliadau wrth inni roi'r Safonau ar waith yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi. Os dymunwch drafod ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, fy Mhennaeth Polisi (tanya.nash@ombudsman.wales).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Mai 2021**